# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2016

Amser: 08.30 - 09.02

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Simon Thomas AC<br>Paul Davies AC<br>Mark Reckless AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Adolygodd y Pwyllgor y cofnodion a chytunodd ar y fersiwn i'w chyhoeddi.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 3 Trefnu busnes - y Pwyllgor Busnes

*Busnes yr wythnos hon*

**Dydd Mawrth**

- Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn gwneud datganiad am Adeiladu ar ein Llwyddiant Ailgylchu i greu Economi Gylchol (30 munud)

- Bydd y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth yn gwneud datganiad am Brentisiaethau yng Nghymru (30 munud)

- Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn gwneud datganiad am yr Wythnos Gwirfoddoli (30 munud)

- Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn gwneud datganiad am adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol (30 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

- Mae’r Cyfarfod Llawn yn debygol o ddod i ben erbyn 05:45.

**Dydd Mercher**

- Cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau (5 munud)

- Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes ei bod yn bwriadu neilltuo 3 munud yn hytrach na'r 5 munud arferol i Aelodau sy'n dymuno siarad yn y ddadl gan Aelod Unigol a gofynnodd i’r grwpiau roi ryw syniad o bwy fyddai’n hoffi siarad.

- Caiff dadl y Ceidwadwyr Cymreig ei symud a’i chynnal cyn dadl Plaid Cymru.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

- Mae'r Cyfarfod Llawn yn debygol o ddod i ben erbyn 06:40.

*Trefn busnes*

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio'r gwaith o amserlennu Busnes y Cynulliad ar gyfer dydd Mercher 6 Gorffennaf tan y cyfarfod yr wythnos nesaf.

- Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 22 Mehefin 2016 –**

<u>Cynnig enwau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau (5 munud)</u>

## 4 Pwyllgorau

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno cynnig i benodi aelodau a chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dros dro er mwyn i'r Cynulliad gytuno arno ar 15 Mehefin a chytunwyd y dylid cynnig enw David Melding (Ceidwadwyr) fel cadeirydd y pwyllgor.

## 5 Amserlen y gyllideb

Nododd y Pwyllgor lythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn dweud wrth y Rheolwyr Busnes ei fod yn bwriadu cyflwyno'r cynnig cyllideb atodol cyntaf ar 21 Mehefin a chynnig y cynnig ar 12 Gorffennaf. Byddai hynny'n rhoi tair wythnos i un o bwyllgorau'r Cynulliad graffu ar y cynnig. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno cynnig ar enwau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau ar 22 Mehefin fel y gellir sefydlu pwyllgor i ystyried y Gyllideb Atodol.

## Unrhyw Fusnes Arall

Roedd y Llywydd yn awyddus i'r swyddogion sicrhau y bydd y broses o amserlennu busnes yn addas yn y dyfodol er mwyn cynnwys penderfyniadau y bydd y Pwyllgor

Busnes yn debygol o’u gwneud mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen.

Holodd Simon Thomas am fwriad y Llywodraeth i gyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cymru. Dywedodd Jane Hutt wrth y Rheolwyr Busnes y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn cyfarfod yr wythnos nesaf.